



Ysgol Pentreuchaf

48. Polisi Cyswllt â Rhieni

Nod

Sicrhau cydweithrediad y rhieni er mwyn i'r plant gael mwynhâd, a'r budd mwyaf posibl o'r ysgol, i'r rhieni deimlo eu bod yn rhan o'r sefydliad a'u bod yn derbyn gwybodaeth fydd o gymorth iddynt roddi cymorth i'w plant mewn amrywiol sefyllfaoedd.

Amcanion

1. Cael gwybodaeth am y plentyn i gael gwell dealltwriaeth rhwng yr athro, y plentyn a'r rhiant.
2. Rhoi gwybodaeth i'r rhieni am gynnydd eu plentyn yn academiaidd ac yn gymdeithasol.
3. Sicrhau cydweithrediad rhwng yr ysgol a'r cartref.
4. Datblygu ymwybyddiaeth o ddelwedd ac athroniaeth yr ysgol i'r rhieni ddod yn gyfarwydd ag ef.

Canllawiau

1. Bydd rhieni plant newydd yn derbyn pecyn o ffurflenni caniatâd i'w llenwi i bob plentyn sy'n cychwyn yn yr ysgol (fel arfer ym mis Medi, ond hefyd i bob plentyn sy'n cychwyn yn ystod blwyddyn ysgol).
2. Byddwn yn sicrhau derbyn rhifau ffôn cyfredol pob plentyn ym mis Medi yn flynyddol
3. Bydd disgyblion yr ysgol yn derbyn Cytundeb Cartref Ysgol ym mis Medi. Byddwn yn sicrhau fod pob rhiant a phlentyn yn ei arwyddo. Caiff pob plentyn sy'n ymuno â'r ysgol yn ystod y flwyddyn gopi hefyd.
4. Bydd copi Brospectws yr ysgol yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol ac ar gael ar wefan yr ysgol. Darperir gopi papur hefyd os bydd rhiant yn gwneud cais i gael copi. Mae'n ddogfen gyfeirio defnyddiol iddynt. Mae copiau o bolisiau Ymddygiad a Disgyblaeth, Grym Rhesymol, Amddiffyn Plant, Bwlio a Chynllun Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn y Prosbectws.
5. Bydd rhieni plant Meithrin yn derbyn y llyfryn 'Cam Cyntaf' i'w llenwi gyda'r plentyn gartref cyn iddo/iddi ddechrau yn yr ysgol. Bydd yr athrawes wedyn yn llenwi'r gweddill. Caiff hwn ei drafod yn y cyfarfod rhieni cyntaf a gynhelir yn ystod tymor yr Hydref.
6. Bydd plant Derbyn yn cael Aseiad Sylfaen ddechrau eu blwyddyn llawn amser cyntaf yn yr ysgol. Caiff yr aseiad ei drafod gyda'r rhieni yn y cyfarfod rhieni cyntaf yn ystod tymor yr Hydref.
7. Defnyddir dechnoleg fel cymorth i rannu gwybodaeth a chysylltu gyda rhieni – e.e. negeseuon testun *Teachers 2 Parents*, safwe'r ysgol, *Facebook* a Trydar.
8. Mae cyfle i'r rhieni sydd â phlant ar y Gofrestr AAA gael trafodaeth penodol unwaith y flwyddyn, trafodaethau yn ystod pob noson rieni, a chyfarfodydd ar gais y rhieni neu'r ysgol ar unrhyw adeg. Mae'r polisi ADY ar gael i'r rhieni.
9. Cynhelir tair noson rieni bob blwyddyn, i greu cyswllt rhwng y rhiant a'r athro dosbarth, i drafod datblygiad plentyn, i osod targedau penodol ac i ragweld cynnydd at y dyfodol.
10. Caiff adroddiadau blynyddol eu gyrru i'r rhieni wythnos o flaen y noson rieni yn ystod tymor yr Haf. Caiff y rhieni gyfle i drafod canlyniadau B2 a B6 yn ystod y noson rieni yma hefyd.
11. Caiff y rhieni gopi o Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr a gwybodaeth sut i alw cyfarfod os ydynt eisiau (gweler y polisi).
12. Bydd 4 o'r rhieni yn cael eu hethol gan y rhieni i'w cynrychioli ar y Corff Llywodraethol.
13. Mae gan yr ysgol 'Gymdeithas Rhieni Ysgol Pentreuchaf' sy'n cynnwys rhieni, cyfeillion ac aelodau staff sy'n rieni o'r ysgol.
14. Bydd llythyrau yn cael eu gyrru allan i rieni mewn da bryd (weithiau bydd llythyrau munud-olaf yn anorfod oherwydd gohirio gweithgareddau oherwydd tywydd garw, salwch a.y.y.b.).
15. Pan fydd eira, ceisiwn gysylltu gyda'r rhieni, sicrhau fod aelod o staff yn yr ysgol ben bore i ateb galwadau ffôn rhieni a.y.y.b. Gweler y polisi Tywydd Garw.
16. Ble bo rhieni sydd wedi gwahanu yn gwneud cais penodol, byddwn yn rhoddi dau gopi o bob llythyr i'r plant eu dosbarthu i'r rhieni.
17. Rhannu holiaduron i rieni'n flynyddol i ganfod eu barn a'u dymuniadau.
18. Mae'n bwysig bod rhieni ac athrawon yn cydweithio a chyd~drafod er lles y plentyn.

19. Mae croeso i rieni gysylltu gyda'r ysgol ar unrhyw adeg i drefnu dod i mewn i drafod unrhyw fater ar y cyfle cyntaf posibl. Bydd yr ysgol, hefyd yn cysylltu gyda'r rhieni i'w gwahodd i'r ysgol i drafod unrhyw bryderon sydd gennym ni

Casgliad

Dylai rhieni gael eu cynnwys ym mywyd yr ysgol i'r graddau y mae hyn yn ymarferol. Gobeithiwn y byddant yn teimlo'n gysurus o fewn ei muriau, heb fod awydd ei chymryd drosodd!

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____